


WALES

Llwybr pentir Pen Anglas

Mae'r gylchdaith hon, oddi ar lwybr yr arfordir o Wdig, yn arwain ar draws rhostir arfordirol garw yn cynnwys creigiau folcanig trawiadol ym mhentir Pen Anglas. Gallwch hefyd fwynhau golygfeydd godidog ar draws Bae Ceredigion, tra bod y llwybr troednoeth yn golygu y gall y teulu cyfan fwynhau antur wyllt.



Gwybodaeth

Cyfeiriad: Cylch troi ym Mhentref yr Harbwr, Wdig, Sir Benfro, SA64 0DY.

Gweithgaredd: Cerdedd

Hawdd: Llwybr arfordirol sy'n cael ei gynnal yn dda ond sy'n naturiol anwastad. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Mae croeso i gŵn, ond rhaid eu cadw ar dennyn gan fod y daith yn mynd drwy ardaloedd pori gwartheg a merlod.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 2 (km: 3.2)

Hyd: 1 awr - 2 awr

Tirwedd

Llwybr arfordirol sy'n cael ei gynnal yn dda ond sy'n naturiol anwastad, a all fod yn fwdlyd ar ôl glaw trwm. Ymylon clogwyni a thir garw o gwmpas cam 6 – cadwch lygad ar blant a chŵn. Mae rhai llethrau serth ar lwybr yr arfordir, a bydd angen croesi nant a phasio camfeydd a gatiâu mochyn.

Cyfanswm y rhannau: 8

Man cychwyn: Cylch troi ym Mhentref yr Harbwr, cyfeirnod grid: SM948392.

1. Dilynwch Llwybr Arfordir Sir Benfro o'r cylch troi ym mhen yr heol ym Mhentref yr Harbwr. Mae'r llwybr yn disgyn yn serth, gyda golygfeydd da dros Harbwr Abergwaun.
2. Wrth y gât bren trowch i'r chwith ac ewch tua'r gogledd.
3. Mae'r llwybr yn dod at gât mochyn gydag arwydd omega yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Pen Anglas. Peidiwch â mynd drwy'r gât hon. Yn lle hynny, ewch i'r dde, gan gadw'r ffens weiren i'r chwith ohonoch. Dilynwch y llwybr am 325 llath (300m) at gât bren.
4. Croeswch y gât bren i dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a dilynwch y llwybr drwy'r grug a'r eithin tuag at Ben Anglas. Mae'r llwybr yn pasio'n agos at ddau gae bach a amgaewyd gan waliau cerrig ryw 200 mlynedd yn ôl.
5. Wrth yr hen bostyn mordwyo, trowch i'r dde i ddilyn y llwybr atal tân am 300 llath (270m) tua'r môr.
6. Dilynwch y llinell o farcwyr mordwyo i bentir Pen Anglas. Mae seiren niwl yr harbwr yn yr adeilad brics bach.
7. Aildroediwch yr un llwybr. Ewch yn syth heibio'r postyn mordwyo yng nghan 4. Croeswch ardal laswellt i ailymuno â Llwybr Arfordir Sir Benfro cyn dringo'n raddol tua'r tir mawr.
8. Dilynwch lwybr yr arfordir drwy droi i'r chwith wrth adfeilion annedd (Crincoed), sydd wedi'i orchuddio gan lystyfiant. Mae'r llwybr glaswellt yn rhedeg am 65 llath (50m) at gam 3, sef y gât mochyn ag arwydd omega yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer Pen Anglas. Aildroediwch y llwybr yn ôl i Bentref yr Harbwr.

Man gorffen: Cylch troi ym Mhentref yr Harbwr, cyfeirnod grid: SM948392